CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 17 EBRILL 2007

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng. I Thomas

Cynghorwyr
M P Jones, W T Owen, R Anderson, H Edwards, H W Roberts, R M Jones, H Gwyn, O T Owen, A W Bohana, W R Owen, A Kirk, M E Williams, T Thomas

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng. G Parry, Cyng. A Y Williams, Cyng. E D Williams

2. **Datgan Buddiant Personol**
   W T Owen – Cynllunio
   W R Owen - Cynllunio a cais cynllunio Clwb Peldroed (wedi gadael y Siambr)
   O T Owen – cais cynllunio cysylltiad teuluol (wedi gadael y Siambr)
   R M Jones – Cynllunio a Gisda
   H Edwards – Cynllunio
   I C Thomas - dau gais cynllunio (wedi gadael y Siambr i'r ddau)
   A Bohana – cais cynllunio (wedi gadael y Siambr)

3. **Eitemau brys**

   Costau asesiad risg –eitem 17
   E-bost Cyng. H Roberts – eitem 18
   Cyfeillio – eitem 19
   Cysgodfa'n Bws – eitem 20
   Offer cyfieithu - eitem 21

4. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
I anfon rhestr argymhellion (gweler Daflen) i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol

5. **Cyfrifon**

I gymeradwyo biliau a dalwyd

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

6. **Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog**

Tal aelodaeth 2007 – 2008
Penderfynwyd

Talu, ond clerc i holi ynghylch a taflenni

7. **Plismona Cymdogaeth**

Llythyr gan Heddlu Gogledd Cymru
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ac ethol Cyng. H Edwards fel cynrychiolydd

8. **Cylchlythyr Gisda**

Copi ar y bwrdd
Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. **Datganiad Polisi Llywodraeth Leol 2007 Rhannu Cyfrifoldeb**

i. Llythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru

ii. Crynodeb gan Unllais Cymru

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, a nodi bod hi'n braf gweld perthynas clos rhwng Unllais a'r Cynylliad

10. **Lon Osgoi Bontnewydd**

i. Llythyr gan M. J. Gilbert
ii. Copi o lythyr anfonwyd i Gyngor Bontnewydd

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, a falch weld pethau yn symud yn eu blaen

11. **Un Llais Cymru**

Canllawiau ar sefydlu Gweithdrefn Cwynion
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, a defnyddio yn y dyfodol. Mynd ati i ysgrifennu polisi llawn wrth siarad am y rheolau sefydlog

12. Her Iechyd Cymru

Cylch lythyr Gwanwyn 2007
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

13. Llythyr Cyngor Gwynedd

Par: Gangiau Cymunedol

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth. Clerc i nodi bod angen gwneud o leiaf yr un fath a cynllun peilot y llynedd

14. Llythyr Cyngor Gwynedd

Rhaglen Waith Cyfadran yr Amgylchedd Ebrill 2007

Penderfynwyd

Gofyn pam bod gwaith heb gychwyn ar Maes Hyfryd , Maesincla

15. Llythyr Cyngor Gwynedd

Par: Ymgynghori ar geisiadau o dan Deddf Trwyddedu 2003
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

16. Cwestiynau

Dim

17. Asesiad Risg Tan

Clerc wedi derbyn costau ar ôl trafodaethau hir a Cyngor Gwynedd, nad ydynt bellach yn gwneud y gwaith yma eu hunain, wedi cysylltu a'r corff mae nhw yn ddefnyddio am gostau. Dim ond un ffigwr sydd ger bron sef £725

Penderfynwyd

Derbyn a symud ymlaen, clerc i wneud y trefniadau perthnasol

18. **Cymdeithas Dinesig**

E-bost gan Cyng. H W Roberts

Hysbysebu Cyfarfod Cymdeithas Ddinesig yn yr Institiwt am 7.30 Ystafell Peblig 26 Ebrill 2007 .

Siaradwr gwadd o CADW sef Marilyn Lewis, ynghyd a dau swyddog Trefor Thorpe a Mike Yates.

Croeso i bawb

19. Pwyllgor Gefeillio Caernarfon a Landerne

Hysbysebu cyfarfod nos Fawrth Ebrill 24 yn yr Institiwt am 7.00 i drafod yr ymweliad ym mis Gorffennaf

20.Cysgodfa'n Bws

Yn dilyn cytuno costau ar gyfer un safle bws yn ward Cyng. H Edwards, gofynnwyd i'r clerc gael costau ar gyfer mwy nag un, i weld os oedd modd cael yn rhatach.

Clerc yn adrodd yn ôl ,bod hi yn bosibl cael gostyngiad o 5% os oedd y Cyngor yn archebu 5 yr un pryd.

Yn ogystal roedd y clerc wedi cael hyd i gwmni arall oedd yn medru darparu un cysgodfan am bris llai.

Penderfynwyd

I'r clerc symud ymlaen i archebu un cysgodfa'n oddi wrth yr ail gwmni ar y pris llai

21 **Offer Cyfieithu**

Yn dilyn cyngor cwmni Cymen, roedd y clerc wedi cael cwmni i mewn i archwilio yr offer cyfieithu, gan bod y cyfieithwyr wedi bod yn cael trafferth ers peth amser.

Gan bod y system bresennol yn un hen, nad oes modd gwneud llawer o welliannau iddo. Er dweud hyn, mae'r peiriannydd wedi llwyddo i wella y system dros dro, ond teimlir bod werth i'r Cyngor ystyried gosod ryw fath o ddefnydd ar ben y byrddau er mwyn tawelu rhywfaint ar y sŵn papur ag ati. Yr unig opsiwn arall fyddai cael system newydd costus. Nid yw Cymen yn teimlo bod y sefyllfa mor ddrwg a hynny eto

Penderfynwyd
Gweld os yw'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud yn hwyluso'r broblem, ac yna archwilio ymhen 6 mis os oes angen rhoi ryw fath o ddefnydd ar y byrddau. Yn ogystal rhoi sylw i'r mater yn yr amcangyfrifon o hyn allan. Hefyd archwilio'r offer yn flynyddol

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd..... Dyddiad.....